Codi Ymwybyddiaeth o'r CCUHP a'i Hybu

Gweithdy 3

Pobl Ifanc Oedran Uwchradd

Cynulleidfa Darged	Pobl Ifanc Oedran Uwchradd
Hyd	1 awr ar y mwyaf
Nodau	1. Codi a datblygu ymwybyddiaeth o hawliau plant a phobl ifanc fel y'u hamlinellwyd yn yr CCUHP. 2. Eu galluogi i sicrhau eu hawliau yn effeithiol ac yn hyderus o dan bob amgylchiad ac ym mhob penderfyniad sy'n effeithio arnyn nhw yng Nghymru.
Y Deilliannau a Ragwelir	• Datblygu dealltwriaeth o'r CCUHP. • Cael trosolwg ar hawliau plant a phobl ifanc mewn perthynas â'r CCUHP. • Cydnabod manteision sicrhau eu hawliau fel y'u hamlinellwyd yn yr CCUHP a chydnabod y rhwystrau sy'n eu hatal. • Helpu aelodau'r gweithdy i arfer eu hawliau fel y'u hamlinellwyd yn yr CCUHP. • Nodi'r camau y mae angen eu cymryd er mwyn eu helpu i gadw'r momentwm, wrth sicrhau eu hawliau fel y'u hamlinellwyd yn yr CCUHP.
Adnoddau Gweledol	• Mae'r holl ffotograffau a chopïau o Erthyglau 1-42 o'r CCUHP ar gael yn y blygell o Adnoddau Gweledol sy'n cyd-fynd â'r gweithdai hyn.

ESF
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government
Ewrop & Cymru: Buddsoddi yn eich Dyfodol
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your Future
European Social Fund

Adnoddau'r Gweithdai

Er mwyn sicrhau neges gyson am yr CCUHP a hawliau plant a phobl ifanc ac er mwyn helpu i gyflwyno pob gweithdy, mae'r canlynol ar gael:

1. Yr CCUHP – yn blaen: papur cefndir
2. Plygell o Adnoddau'r Gweithdai sy'n cynnwys ffotograffau enghreifftiol a'r rhestr o Erthyglau'r CCUHP

Gwefannau Gwerth Eu Gweld – mae'r pecyn cymorth hefyd yn cynnwys rhestr o wefannau sy'n cynnig cysylltiadau ymlaen i wefannau eraill ac amrywiaeth o adnoddau sydd wedi ennill eu plwyf a'r rheiny wedi'u datblygu"n unswydd i roi hwb i ddefnyddio'r CCUHP.

Adnoddau a Argymhellir – mae pobl sy'n gweithio ledled Cymru ym maes Addysg Hawliau wedi cynnig eu rhestr nhw o argymhellion ar gyfer adnoddau sydd wedi ennill eu plwyf ar gyfer unrhyw waith ategol neu ddilynol.

Cynnwys	Gweithgaredd
Cyflwyno	1. Cyflwyno – yr hwylusydd ac aelodau'r gweithdy (os nad ydyn nhw'n adnabod ei gilydd eisoes). 2. Gweithgarwch dewisol i dorri'r garw - Pe bawn i wedi cael fy ngadael ar ynys bellennig, pa dri pheth y byddai arna i eu hangen yn fwy na dim. Gofynnwch iddyn nhw rannu gyda'r grŵp. Ar ôl rhannu, rhestrwch y tri pheth mwyaf poblogaidd. 3. Cyflwynwch nodau'r gweithdy ac esboniwch sut mae'r sesiwn yn cyfrannu at godi eu hymwybyddiaeth o'r CCUHP a sut y bydd yn eu helpu i hybu'r CCUHP i'w cyfoedion a'u rhieni/gofalwyr. 4. Y Gêm Ddyfalu - am beth mae CCUHP yn sefyll? Naill ai drwy godi'r cardiau CCUHP (YP01) neu drwy ysgrifennu ar fwrdd neu siart droi. 5. Disgrifiwch yn fyr beth yw diben yr CCUHP – gan gyfeirio at Yr CCUHP – yn blaen (YP02)
'Sut mae'n teimlo pan fydd pobl ddim yn gwrando.'	6. Mewn parau, gofynnwch i'r aelodau ddisgrifio digwyddiad pan na wnaeth pobl wrando arnyn nhw ac adeg pan wrandawodd rhywun arnyn nhw a chymryd eu cyngor – sut roedd y ddau ddigwyddiad yn gwneud iddyn nhw deimlo. 7. Rhannwch deimladau cadarnhaol a negyddol – eu nodi ar siart droi wrth i'r grŵp roi adborth.

Cynnwys	Gweithgaredd
Ffeindio'r ffordd o amgylch yr CCUHP – Mynegi Barn	8. Mynegi Barn ar yr CCUHP - gan ddewis yn ofalus un neu fwy o'r gosodiadau symbylu pwrpasol (YP03) a'r cardiau pleidleisio, gofynnwch i'r grŵp leisio eu barn nhw, sef naill ai cytuno neu anghytuno. Er mwyn 'lleisio' eu barn fe allan nhw: • eu gosod eu hunain ar gontiniwwm mynegi barn tuag at y pen cytuno neu'r pen anghytuno • codi cardiau pleidleisio bawd i fyny/bawd i lawr (YP04), neu • symud i gornel cytuno neu gornel anghytuno o'r ystafell. Ar ôl iddyn nhw fynd i'w safleoedd, fe allan nhw geisio newid barn ei gilydd. .
Mae stori y tu ôl i bob llun…	9. Rhannwch y grŵp mawr yn grwpiau bach, rhowch ffotograff(au) symbylu i bob grŵp, o blith y samplau pwrpasol yn Adnoddau'r Gweithdai neu o'ch banc adnoddau eich hun. Gofynnwch i'r grŵp feddwl am bennawd a chreu stori papur newydd fer am y ffotograff maen nhw wedi'i ddewis (YP07) mewn uchafswm o 200 o eiriau. Gan ddefnyddio'r daflen Yr CCUHP – yn blaen, cyplyswch eu stori ag un neu fwy o'r erthyglau yn yr CCUHP. Pob grŵp i roi adborth am eu pennawd a'r stori y maen nhw wedi'i drafftio.

Cynnwys	Gweithgaredd
Y Camau Nesaf – rhoi'r gair ar led	10. Rhannwch bawb yn grwpiau o 5, a phawb yn y grŵp i ysgrifennu neges Facebook – gan ddilyn ymlaen o rannu "Un peth rwy'n mynd i'w wneud i godi ymwybyddiaeth o'r CCUHP a'i hybu". (YP08) (uchafswm o 140 o gymeriadau yr un). Mae hon yn cael ei phasio ymlaen i'r person nesaf yn y grŵp wedyn mewn cylch i ychwanegu eu pwt nhw.
Gweithgaredd Ymestyn – Campau a rhwystrau; ystyriwch gydag aelodau'r gweithdy y rhwystrau a'r cyfleoedd ynglŷn â chodi ymwybyddiaeth o'r CCUHP a'i hybu.	11. Pob un o aelodau'r gweithdy i ysgrifennu ar 'nodyn gludiog' un rhwystr ac un cyfle, o'u safbwynt nhw, ynglŷn â chodi ymwybyddiaeth o'r CCUHP a'i hybu. Gosodwch y rhain ar 'wal graffiti'. Hwyluswch drafodaeth ar y pwyntiau a godwyd a ble rydyn ni'n mynd o'r fan hyn?

YP01

YP01

N

YP01

C

YP01

YP01



CH03

Gêm Mynegi Barn ar yr CCUHP

"Mae angen dysgu gwers i blant drwg"

"Dylai plant a phobl ifanc gael eu gwerthu yn y farchnad ar ddydd Mawrth"

"Dylai pob plentyn/ person ifanc ddysgu am gyffuriau"

CYTUNO BAWD I FYNY WYNEB Â GWÊN

"Dylai pob plentyn a pherson ifanc sy'n byw yng Nghymru ddysgu siarad Cymraeg"

"Dylai plant gael smacen os ydyn nhw wedi gwneud rhywbeth o'i le"

ANGHYTUNO BAWD I LAWR WYNEB TRIST

"Dim ond plant da ddylai gael chwarae, fel gwobr"

"Dylai plant gael eu gweld ond nid eu clywed"

"Dylai oedolion siarad â'u plant cyn gwneud penderfyniadau pwysig"

YP04

YP04

YP05

YP05

YP07

Mae Stori y tu ôl i bob llun…

Yr Erthygl(au) perthynol yn yr CCUHP _____

Pennawd

Y stori y tu ôl i'r ddelwedd _____

_____

_____

_____

_____

_____

_____

_____

_____

_____

YP08

Statws Facebook

Yn y lle isod, mae pob aelod o'r grŵp i ysgrifennu neges Statws Facebook i sôn am yr CCUHP wrth eu ffrindiau ac am yr hyn mae'r CCUHP gallu ei wneud drosoch chi

Statws Facebook Wedi gwneud gweithdy heddiw am yr CCUHP (Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn). Mae'n anhygoel. Dylai pawb wybod mwy amdano fe. Y peth dwi am ei wneud i roi'r gair ar led yw…

Sylw statws 1 _____

_____

Sylw statws 2 _____

_____

Sylw statws 3 _____

_____

Sylw statws 4 _____

_____